



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Tachwedd 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

| <b>Cynnwys</b>   | <b>Tudalen</b> |
|--|----------------|
| 1. Cyflwyniad  | 3              |
| 2. Cynigion  | 3              |
| 3. Ymgynghori  | 4              |
| 4. Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad                                 | 6              |
| 5. Barn Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches sy'n byw yng Nghymru | 16             |
| 6. Sylwadau terfynol   | 18             |
| 7. Y Camau Nesaf   | 18             |

## 1. Cyflwyniad

Ar 22 Mawrth 2018, lanswyd ymgynghoriad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ar fersiwn ddrafft 'Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches' ('y Cynllun'), i ofyn am farn am gynigion sydd â'r bwriad o ddatblygu a gwella mynediad at gymorth, cyngor a gwasanaethau i bobl sy'n ceisio noddfa ledled Cymru. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynigion sy'n ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a'r tlodi a brofir gan ein cymunedau.

## 2. Cynigion

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys nifer o gynigion. Mae'r prif gynigion wedi'u rhestru isod o dan bedair prif thema'r Cynllun, sydd hefyd yn themâu i *Ffyniant i Bawb*, y strategaeth genedlaethol i Gymru:

### Ffyniannus a Diogel

- Sicrhau bod ffoaduriaid sydd newydd gael eu cydnabod yn cael cymorth i gael llety addas.
- Hyrwyddo llety o ansawdd da a ddarperir gan Lywodraeth y DU.
- Cynorthwyo tenantiaid sy'n geiswyr lloches i eirioli am welliannau i'w llety.

### Uchelgais a Dysgu

- Hybu cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth ymysg ffoaduriaid.
- Hyrwyddo cynhwysiant ariannol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches i osgoi amddifadedd, lliniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw ar gyfer y rhai sydd ar incwm isel.
- Hyrwyddo Llywodraeth Cymru fel lle i weithio i ffoaduriaid (yn amodol ar reolau cenedligrwydd).
- Gweithio tuag at atal ffoaduriaid neu geiswyr lloches rhag dod yn ddiodefwr masnachu pobl neu gaethwasiaeth fodern.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfleoedd prentisiaeth ymhlith ffoaduriaid er mwyn helpu i gynyddu cyfleoedd gwaith a dysgu.
- Mynd i'r afael ag achosion o fwlio mewn ysgolion yn erbyn plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Cynyddu'r cyfleoedd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael mynediad i addysg bellach ac uwch.
- Helpu a herio awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol ar y camau gweithredu maen nhw'n eu cymryd yn uniongyrchol, a thrwy gymorth i ysgolion, er mwyn gwella canlyniadau addysg i'r holl ddysgwyr.

### Iach ac Egniol

- Sicrhau bod anghenion iechyd ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu hasesu a'r canlyniadau'n cael eu defnyddio wrth gynllunio gwasanaethau.
- Sicrhau bod llai o rwystrau i ofal iechyd ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Pennu dulliau o hyrwyddo'r rhannu ar yr arferion gorau er mwyn gwella canlyniadau iechyd cymunedau ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Creu'r amodau i bob plentyn o'r cefndiroedd hyn gael dechrau iach mewn bywyd.
- Lleihau nifer yr achosion o gyflyrau iechyd meddwl sydd gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chefnogi diagnosis a thriniaeth fwy effeithiol.

- Helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

### **Unedig a Chysylltiedig**

- Sicrhau bod plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches yn gallu cael gafael ar wasanaethau cwnsela annibynnol.
- Ymchwilio i ffyrdd i ddenu rhagor o deuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches i elwa ar hawliau addysg gynnar y Cyfnod Sylfaen.
- Helpu teuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gymryd rhan yn rhaglenni Dechrau'n Deg er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl i blant.
- Hyrwyddo Sgiliau Hanfodol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches er mwyn gwella eu rhagolygon gwaith, cydlyniant cymdeithasol a lefelau cyrhaeddiad ysgolion i blant, gan barhau i roi blaenoriaeth i Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill.
- Sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael gwybod am ac yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth gan raglen Teuluoedd yn Gyntaf.
- Cefnogi plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd ar eu pen eu hunain, i sicrhau eu bod nhw'n gallu cael y cyngor a'r gwasanaeth eirioli sydd eu hangen arnynt.
- Helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod modd gofalu'n ddigonol am blant ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd ar eu pen eu hunain.
- Cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod eu staff a'u partneriaid yn gallu diogelu plant ac oedolion sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches.
- Darparu cymorth cydlynus ar ehangu ardaloedd gwasgaru ac ailsefydlu ffoaduriaid.
- Meithrin perthynas dda rhwng ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r gymdeithas ehangach.

### **3. Ymgynghori**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 22 Mawrth 2018 a 25 Mehefin 2018. Darparwyd fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflenni ymateb. Roeddem hefyd wedi derbyn rhai ymatebion hwyr er mwyn sicrhau bod yr ystod ehangaf posibl o ymatebion yn cael eu hystyried.

Roedd deg cwestiwn wedi'u cynnwys mewn dogfen a oedd ar gael ar-lein ac y gellid ei dychwelyd ar ffurf copi caled neu drwy'r e-bost. Mae'r deg cwestiwn fel a ganlyn:

- 1 Ydych chi'n cytuno â chymau gweithredu 'Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches' Llywodraeth Cymru?
- 2 Ydych chi'n cytuno â'r camau blaenoriaeth a nodwyd yn rhagair y Gweinidog?
- 3 Hoffem sicrhau bod sefydliadau a chymunedau eraill ledled Cymru yn cymryd camau i gefnogi'r syniad o Gymru fel 'Cenedl Noddfa'. Beth yw'r ffordd orau o weithio gydag eraill i gyflawni hyn?
- 4 Ein nod yw cynnig cyfle i bawb gyflawni o'u gorau a mwynhau bywydau iach, ffyniannus a bodlon, a'u galluogi i gymryd rhan lawn yn eu cymunedau a chyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru at y dyfodol. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well i ffoaduriaid a cheiswyr lloches?

- 5 Hoffem weld pawb yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n cefnogi bywyd llwyddiannus a ffyniannus. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well i ffoaduriaid a cheiswyr lloches?
- 6 Hoffem i sector gofal cymdeithasol Cymru helpu pobl i fyw bywydau annibynnol. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well i ffoaduriaid a cheiswyr lloches?
- 7 Hoffem sicrhau nad yw problemau iechyd meddwl yn rhwystr i gyrraedd eu potensial mewn bywyd. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well i ffoaduriaid a cheiswyr lloches?
- 8 Dylai pawb gael y sgiliau gofynnol i gael swydd, a chyfle i feithrin sgiliau newydd drwy eu hoes gwaith. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well i ffoaduriaid a cheiswyr lloches?
- 9 Allwch chi nodi unrhyw effeithiau ychwanegol o'r ddogfen hon (cadarnhaol neu niweidiol) ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Hawliau Plant? Er mwyn cael help i wneud hyn, bydd angen i chi gyfeirio at yr asesiadau o'r effeithiau ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Hawliau Plant sydd gyda'r holiadur hwn.
- 10 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, byddwch cystal â'u nodi yma.

Cawsom 35 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad gan sefydliadau ac unigolion. Mae 25 o'r rhain wedi'u rhestru isod. Roedd y 10 sy'n weddill wedi dewis aros yn ddiennw.

| <b>Ymatebion Ysgrifenedig</b>  |   |
|--|---|
| Action on Smoking and Health (ASH)   | Iechyd Cyhoeddus Cymru                    |
| Sefydliad Bevan  | Y Groes Goch                              |
| Cyngor Caerdydd / Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr (EMTAS) | Sam Parker                                |
| Griff Taylor   | Vicky Moller                              |
| Comisiynydd Plant Cymru  | Heddlu De Cymru                           |
| Plant yng Nghymru  | Fforwm Cyfranogi Cenedlaethol Tros Gynnal |
| Heddlu Dyfed Powys   | Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru       |
| Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  | Comisiynydd y Gymraeg                     |
| Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)  | Eglwys Bresbyteraidd Cymru                |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent  | Cynghair Ffoaduriaid Cymru                |
| Heddlu Gwent   | Cyngor Ffoaduriaid Cymru                  |
| Cyngor Sir Casnewydd   | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam          |
| Oxfam Cymru  |   |

Yn ogystal â gofyn am ymatebion ysgrifenedig, roeddem wedi ymgynghori drwy Gyngor Ffoaduriaid Cymru â phobl sy'n ceisio noddfa. Dilynwyd y llwybr hwn er mwyn ennyn hyder mewn ymatebwyr dichonol, gan ein bod yn teimlo y gallent fod yn llai cyfforddus wrth drafod newidiadau â Llywodraeth yn uniongyrchol. Mae ymatebion diennw wedi'u cynnwys isod.

Yn olaf, rydym wedi cynnwys barn pobl ifanc sy'n ceisio noddfa a gymerodd ran mewn ymgynghoriad cyfochrog ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau digonol ar gael i gynorthwyo pobl ifanc sy'n agored i niwed. Gweithredwyd fel hyn er mwyn osgoi dryswch a blino ar ymgynghoriadau. Mae crynodeb o'r ymatebion hyn yn adran 4.9 isod.

#### **4. Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad**

Mae'r ymatebion hyn i'r cynigion yn grynodeb o'r sylwadau a gyflwynwyd mewn ysgrifen ac ar-lein.

##### **4.1 C.1 Ydych chi'n cytuno â chamau gweithredu 'Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches' Llywodraeth Cymru?**

###### **Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig**

Roedd 34% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn wedi nodi eu bod yn cytuno, a 34% wedi dweud eu bod yn cytuno 'gan mwyaf' â'r camau gweithredu yn y drafft. Nid oedd 16% o'r ymatebion yn dangos unrhyw duedd ac roedd 11% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynigion.

Ymhlith y 68% a gytunai neu a gytunai gan mwyaf â'r cynigion, cafwyd amrywiaeth o sylwadau am y Cynllun drafft a gwahanol gwestiynau ac argymhellion am beth y gellid neu na ellid ei gynnwys yn y Cynllun terfynol. Roedd ymatebwyr a oedd yn cynnwys Oxfam Cymru, Cyngor Wrecsam ac EYST yn canmol y ffaith bod y Cynllun yn canolbwyntio ar leihau amddifadedd a digartrefedd. Cafwyd canmoliaeth hefyd i'r bwriad i beidio â mabwysiadu dull unffurf o weithredu yn y Cynllun.

At ei gilydd, felly, mae'r Cynllun yn cael ei gefnogi a'i groesawu'n gyffredinol gan y rhanddeiliaid a ymatebodd. Y brif neges yn yr ymatebion oedd bod dull Llywodraeth Cymru o wella integreiddio a lliniaru effeithiau polisïau Llywodraeth y DU yn gadarnhaol a mawr ei angen.

Rhai o'r pryderon sy'n ymwneud â neges gyffredinol y Cynllun yw bod iddo naws uchelgeisiol y gellid ei chryfhau drwy gynnwys rhagor o fanylion am y ffordd o gyflawni'r ymrwymadau a phwy fydd yn gyfrifol amdanynt. Roedd rhai hefyd wedi gofyn am fwy o fanylion am amserlenni. Beirniadodd ASH y Cynllun am nad oedd yn cynnwys digon o negeseuon gwrthysmygu. Roedd dau ymatebydd dienw wedi mynegi pryderon eraill hefyd am y tlodi a brofir gan y rheini yng Nghymru nad ydynt yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches.

###### **Adborth gan Bobl sy'n Ceisio Noddfa**

*(Cafwyd drwy grwpiau ffocws Cyngor Ffoaduriaid Cymru ar gwestiynau'r ymgynghoriad)*

Ynghylch y cynnig am hyrwyddo tai o ansawdd da, roedd un cyfranogwr mewn grŵp ffocws wedi rhoi gwybod bod problemau cyson o ran hylendid yn y llety y mae'n ei rannu ac anawsterau oherwydd ymddygiad bygythiol gan breswylwyr eraill. Dywedodd cyfranogwr arall y dylid cael rhagor o lety ar gyfer pobl LGBT gan fod gwahaniaethu'n digwydd drwy'r amser a bod pobl LGBT sy'n ceisio noddfa yn cael eu trin yn wahanol i aelodau o'r gymuned nad ydynt yn bobl LGBT.

Gyda golwg ar gyflogadwyedd, roedd un person a oedd wedi'i gydnabod yn ffoadur yn annog Llywodraeth Cymru i wneud rhagor i dynnu sylw cyflogwyr at beth mae statws ffoadur yn ei olygu mewn gwirionedd. Mae'n teimlo bod y stigma sydd ynglŷn â'r term hwnnw yn gallu lleihau ei gyfleoedd i fod yn gyflogadwy a'i fod yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn.

## **4.2 C.2 Ydych chi'n cytuno â'r camau blaenoriaeth a nodwyd yn rhagair y Gweinidog?**

### **Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig**

Roedd 54% o'r ymatebion yn cytuno neu'n cytuno gan mwyaf â'r camau gweithredu a nodwyd yn rhagair y Gweinidog. Roedd 11% o'r ymatebwyr yn anghytuno a 35% heb ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd nifer o ymatebwyr yn falch bod rhagair y Gweinidog yn nodi meysydd lle byddai Llywodraeth Cymru yn hoffi gweld newidiadau ym mholisi lloches Llywodraeth y DU.

Cafwyd canmoliaeth hefyd i'r ffaith bod rhagair y Gweinidog yn tynnu sylw at sgiliau, profiad a chydnerthedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches a gwerth y rhain i Gymru. Awgrymodd ymatebwyr y byddai hyrwyddo'r neges hon yn fwy eang yn gallu bod yn gymorth i sicrhau cydlyniant cymunedol.

Roedd un awdurdod lleol wedi codi pryderon ynghylch y system ddwy haen sydd wedi'i chreu'n anfwriadol gan gynlluniau fel y Rhaglen Adsefydlu Syriaid a materion sy'n ymwneud â thrawma ymhlith ceiswyr lloches. Mae'n nodi nad yw pob ceisydd lloches yn dioddef gan drawma a bod angen gwahaniaethu rhwng ceiswyr lloches ar y sail hon pan fyddant yn cyrraedd gan y byddai hyn yn hwyluso'r gallu i gwrdd â'u hanghenion.

Ymysg y tri ymateb a oedd yn anghytuno â'r camau blaenoriaeth, cafwyd un gan awdurdod lleol a oedd yn credu y dylid cynnwys darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn y rhestr o flaenoriaethau.



### **4.3 C.3 Hoffem sicrhau bod sefydliadau a chymunedau eraill ledled Cymru yn cymryd camau i gefnogi'r syniad o Gymru fel 'Cenedl Noddfa'. Beth yw'r ffordd orau o weithio gydag eraill i gyflawni hyn?**

#### **Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig**

Roedd 57% o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cytuno, neu'n cytuno gan mwyaf, â'r syniad o ddatblygu cynllun Cenedl Noddfa gan sefydliadau eraill.

Er bod mwyafrif y rhanddeiliaid o blaid y Cynllun, roedd gwahanol farnau am y ffordd orau i integreiddio'r Cynllun â sefydliadau eraill. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Caerdydd y byddai'r dull hwn o weithredu'n ei gwneud yn haws cael trosolwg ar weithredu Cenedl Noddfa a'i effaith. Roedd Heddlu De Cymru yn cytuno â'r Cynllun ac wedi ymateb drwy ddweud y byddai gofyn am gamau gweithredu gan sefydliadau a chymunedau eraill yn helpu i gadarnhau a sefydlu'r bwriadau a dulliau o weithredu sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fod yn gyfrifol am y cynllun hwn, gan y byddai gofyn i awdurdodau lleol gymryd rhan yn y swyddogaeth honno yn faich ar eu sefyllfa ariannol ac y byddai'n well ganddo weld awdurdodau lleol yn cyfrannu i gynllun sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru.

Roedd EYST yn credu y byddai cael gormod o gynlluniau ar wahân yn gallu arwain at ddull anghydlynol o weithredu, ac anawsterau o ran monitro cynnydd. Rhybuddiodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru y byddai'r dull hwn o weithredu yn gallu lluosogi nifer y cynlluniau ar draws sefydliadau, ac y byddai hyn yn arwain at ormod o gymhlethdodau a gormod o fiwrocratiaeth.

#### **Adborth gan Bobl sy'n Ceisio Noddfa**

Dywedodd un cyfranogwr mewn grŵp ffocws yng Nghasnewydd y dylai awdurdodau lleol gynnal grwpiau mewn cymunedau heb godi tâl er mwyn cymell pobl i ddod i siarad Saesneg a chynnal dosbarthiadau ESOL er mwyn i Gymru ddod yn Genedl Noddfa. Gall un neu ddau o deuluoedd ddod ynghyd i helpu ei gilydd.

Dywedodd aelod arall o'r un grŵp y byddai Cymru'n gallu gwella os oedd gwybodaeth ar gael yn rhwyddach. Dywedodd, *"In Wales, information is not very well structured, people are asking about things they already know because there is not a well-structured way to access information. We should not be asking questions that we should be able to access (the answers). This is simply information – I am educated to a certain level, but I still have to ask people where to find the information that I need"*

#### **4.4 C.4 Ein nod yw cynnig cyfle i bawb gyflawni o'u gorau a mwynhau bywydau iach, ffyniannus a bodlon, a'u galluogi i gymryd rhan lawn yn eu cymunedau a chyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru at y dyfodol. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well i ffoaduriaid a cheiswyr lloches?**

##### **Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig**

Roedd nifer sylweddol yn cytuno â'r amcanion hyn, gan fod 69% o ymatebwyr yn cytuno â chynnwys ac ymrwymadau'r Cynllun. Roedd 12% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynigion, ac roedd 19% o'r ymatebwyr heb ateb y cwestiwn hwn.

Roedd yr ymateb gan EYST yn tynnu sylw at bwysigrwydd y ddarpariaeth ESOL, gan ddatgan ei bod yn hollbwysig i alluogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru. Dywedodd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i bob dull a modd i sicrhau bod mwy o ddsbarthiadau ESOL ar gael a'u bod yn fwy hyblyg.

Roedd hyn yn gyson ag ymatebion eraill (gan ddau awdurdod lleol a'r Groes Goch Brydeinig) a oedd yn tynnu sylw at y rhan hollbwysig sydd gan wirfoddoli o ran galluogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ddysgu sgiliau hanfodol a meithrin hyder a phrofiad, yn ogystal â gwella eu hiechyd, llesiant a chyflogadwyedd.

Yn ogystal â hyn, cafwyd awgrym gan Gyngor Dinas Casnewydd am wella'r adnoddau ar gyfer Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru er mwyn galluogi pobl sy'n ceisio noddfa i gael ardystio sgiliau, profiad, addysg a chymwysterau a gafwyd mewn gwledydd tramor ar sail safonau'r DU/Cymru.

Dywedodd Sefydliad Bevan fod gwaith i'w wneud hefyd mewn perthynas ag addysgu cyflogwyr posibl, i roi gwybod iddynt fod gan ffoaduriaid hawl i weithio, gan fod dryswch yn gallu codi rhwng ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mewnfudwyr eraill.

Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn anghytuno â nod y cwestiwn, fodd bynnag, gan ddweud mai'r rheswm am hynny yw'r diffyg pwyslais yn y Cynllun ar ddysgu Cymraeg.

##### **Adborth gan Bobl sy'n Ceisio Noddfa**

Mae'r adborth gan geiswyr noddfa yn cynnwys galwadau am fwy o gyfleoedd i weithio ar gyfer ceiswyr lloches. Cyfeiriodd un ymatebydd at ei mab 23 blwydd oed a oedd yn fyfyrwr yn ei ail flwyddyn mewn prifysgol ym Malaysia, a oedd yn byw bywyd egniol o'r blaen ond sydd bellach yn aros gartref drwy'r dydd ers iddynt fod yn geiswyr lloches yn y Deyrnas Unedig. Roedd aelodau eraill hefyd wedi cyfeirio at y teimlad o fod yn ddi-werth ac yn ddibwrpas sy'n codi o ganlyniad i arwahanrwydd cymdeithasol o'r math hwn (Adborth i'r Rhaglen Hawliau Lloches gan grwpiau Unity in Diversity & Bloom yn Abertawe). Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a oedd wedi cymhell y Pwyllgor i roi'r teitl "Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun" i'w adroddiad.

#### **4.5 C.5 Hoffem weld pawb yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n cefnogi bywyd llwyddiannus a ffyniannus. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well i ffoaduriaid a cheiswyr lloches?**

##### **Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig**

Roedd 59% o'r ymatebion ysgrifenedig yn cytuno neu'n cytuno gan mwyaf â gwella'r ymrwymadau i gyrraedd y nod hwn ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Roedd 9% o'r ymatebion yn anghytuno â'r camau gweithredu yn y Cynllun. Nid oedd y 32% o ymatebion sy'n weddill wedi ateb y cwestiwn hwn.

Roedd beirniadaeth o reol 'Symud Ymlaen' 28 diwrnod y Swyddfa Gartref yn nodwedd amlwg yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mai'r rheol bod rhywun yn gorfod dod o hyd i lety o fewn dim ond 28 diwrnod ar ôl cael statws ffoadur yw un o'r anawsterau mwyaf sy'n wynebu pobl yn ystod y cyfnod 'Symud Ymlaen'. Er ei fod yn cydnabod bod y cyfnodau 'Symud Ymlaen' yn fater polisi i Lywodraeth y DU, argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn gofyn am estyn y cyfnod a ganiateir i ffoaduriaid cyn symud ymlaen o'u llety gwreiddiol.

Byddai cyllid digonol ar gyfer cymorth i ffoaduriaid drwy'r broses 'Symud Ymlaen' yn llesol iawn hefyd i gydlyniant cymunedol ac i ganlyniadau iechyd a llesiant yr unigolion.

Dywedodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru y dylai Llywodraeth Cymru wneud popeth yn ei gallu i roi sicrwydd i gymunedau lleol sy'n pryderu am ddyfodiad ceiswyr lloches a ffoaduriaid nad oes prinder tai i unigolion a theuluoedd lleol. Roedd hefyd yn credu na ddylai pobl sy'n ffoi rhag erledigaeth grefyddol gael eu cartrefu gyda phobl a fyddai'n gwrthwynebu eu credoau crefyddol.

##### **Adborth gan Bobl sy'n Ceisio Noddfa**

Roedd ymatebwyr wedi tynnu sylw at yr effaith niweidiol o dlodi ac oedi yn y broses lloches ar eu hiechyd meddwl.

*"What would help with my mental health is to speed up the delays in the asylum process; some people are in the asylum process for 3 years now"* (cyfranogwr mewn grŵp ffocws, Caerdydd)

Mae un ffoadur a gyfwelwyd yn Wrecsam yn egluro sut mae costau trafndiaeth yn gallu effeithio ar iechyd a straen meddwl: *"Wrexham is a small town with not enough housing available in the town centre area, so people are sent to outer villages to live, making travelling expensive. £10 a week per person for bus for the three of us is making me stressful. I have to find over £128 a month for bus to travel from my village just to do school runs"*.

## **4.6 C.6 Hoffem i sector gofal cymdeithasol Cymru helpu pobl i fyw bywydau annibynnol. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well i ffoaduriaid a cheiswyr lloches?**

### **Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig**

Mae 41% o ymatebwyr yn cefnogi'r Cynllun mewn perthynas â gwella gofal cymdeithasol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae 9% yn anghytuno ac roedd 50% o'r ymatebion heb gynnwys ymateb penodol i'r cwestiwn hwn.

Roedd Fforwm Cyfranogi Cenedlaethol TGP Cymru wedi ymateb gan ddweud y dylid cynnig mwy o gyfleoedd yn gynnar i geiswyr lloches a ffoaduriaid i integreiddio â chymunedau yng Nghymru a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi drwy gynnig cyfleoedd i wirfoddoli iddynt. Dylid cynnig cymorth a dylent gael arweiniad i ddysgu sut mae pethau'n gweithio a chael cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon, dysgu sgiliau newydd a gwella eu llesiant mewn ffyrdd sy'n eu grymuso. Mae pobl ifanc yn dweud y byddent yn hoffi cymryd rhan mewn chwaraeon a mynd i'r gampfa er mwyn eu hiechyd corfforol a meddyliol; fodd bynnag, mae cost teithio ar fysiau yn rhwystro mynediad.

Roedd teithio am brisiau rhatach hefyd yn fater a oedd wedi'i drafod yn yr ymateb i'r ymgynghoriad gan TGP Cymru. Thema gyffredin arall yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yw problemau o ran cael gafael ar ddarpariaeth ESOL. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod angen i bobl fedru Saesneg yn dda a bod â rhwydweithiau cymdeithasol da, cefnogol er mwyn gallu byw'n annibynnol. Mae mwy o fynediad at gyrsiau ESOL a chysiau 'integreiddio/sefydlu/cyfeiriannu' yn debygol o gyfrannu i hyn, ond mae angen cydnabod bod cyfuniad o ffactorau, sef cyrraedd pan ydynt yn hŷn, prinder y gydnabyddiaeth i ddysgu a phrofiad blaenorol, trawma a chyfnod pan nad yw arian cyhoeddus ar gael iddynt, yn debygol o gael effaith niweidiol barhaus ar allu pobl i wireddu eu potensial.

Cafwyd pedwar sylw negyddol. Roedd un ar ffurf rhybudd gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru a oedd yn annog Llywodraeth Cymru i ailedrych ar ffiniau llywodraeth leol a'u haildynnu fel eu bod yn cyd-fynd â ffiniau byrddau iechyd. Roedd y tri arall yn ymatebion dienw a gafwyd ar-lein a oedd yn dilyn yr un thema o roi blaenoriaeth i unigolion domestig dros bobl sy'n ceisio noddfa.

## **4.7 C.7 Hoffem sicrhau nad yw problemau iechyd meddwl yn rhwystr i gyrraedd eu potensial mewn bywyd. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well i ffoaduriaid a cheiswyr lloches?**

### **Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig**

Cafwyd llawer o adborth cadarnhaol i'r cwestiwn hwn, gan fod 69% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno gan mwyaf â chynigion a syniadau a oedd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun. Roedd wyth ymatebydd heb ateb y cwestiwn hwn a chafwyd dau ymateb negyddol.

Ymhlith yr awgrymiadau a chyfraniadau a gafwyd gan ymatebwyr oedd un gan Sefydliad Bevan a oedd yn rhybuddio bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau'r cyllid ac adnoddau sydd eu hangen ar wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru i gynorthwyo pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, yn enwedig yn y pedair ardal wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches. Roedd Sefydliad Bevan hefyd yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ymarferwyr iechyd meddwl wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddiwallu anghenion ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'u bod yn ddiwylliannol sensitif.

Gan fod ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn fwy tebygol o ddiodef gan broblemau iechyd meddwl sy'n ymwneud ag amgylchiadau penodol, awgrymodd EYST y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â byrddau iechyd lleol i sicrhau bod mwy o hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr iechyd i'w helpu i ddeall yr effaith benodol o oroesi rhyfel a dadleoli, yn cynnwys Anhwyllder Straen Wedi Trawma.

Awgrymodd ymatebwyr fod y gallu i dderbyn cymorth iechyd meddwl yn rhwydd ac amserol hefyd o'r pwys mwyaf. Dywedodd Cynghrair Ffoaduriaid Cymru y byddai'n ddoeth darparu archwiliadau iechyd meddwl hirdymor rheolaidd gan fod nifer o'r symptomau o ofid meddyliol a brofir gan geiswyr lloches a ffoaduriaid yn gallu bodoli am fisoedd cyn dod i'r golwg. Roedd anogaeth hefyd yn yr ymatebion i ymgysylltu'n gynnar â phlant ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

### **Adborth gan Bobl sy'n Ceisio Noddfa**

Roedd lle amlwg i iechyd meddwl yn yr adborth gan gymunedau. Roedd yr adborth gan y grwpiau Unity in Diversity & Bloom yn Abertawe yn cynnwys y cyfraniad teimladwy canlynol gan berson sy'n ceisio noddfa: *"Living in constant limbo is not good for us and makes us feel unhappy and stressed... We are deeply distressed and want the Welsh Government to speak to the Home Office about this situation. Our friend was so stressed that he committed suicide. We don't want this to happen again."*

Cafwyd disgrifiad teimladwy arall hefyd o fywyd y ceisiwr lloches gan y grŵp ffocws yng Nghasnewydd: *"My family of six cannot do anything as asylum seekers and it is impacting on our mental state, I cannot take them to a leisure event because I cannot afford it. I can't take them to the park everyday because they want a change. My children are suffering. On their birthday, they sometimes tell me they do not want anything because they know I cannot afford anything and this makes me feel embarrassed. They also tell me they don't want to go outside of the house because they know I cannot afford it as well."*

Mae adborth gan bobl ifanc hefyd am y mater hwn o dan adran 4.9 isod.

#### **4.8 C.8 Dylai pawb gael y sgiliau gofynnol i gael swydd, a chyfle i feithrin sgiliau newydd drwy eu hoes gwaith. Sut allwn ni gyflawni hyn yn well i ffoaduriaid a cheiswyr lloches?**

##### **Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig**

Roedd 59% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r ymrwymadau yn y Cynllun ac, yn yr un modd â chwestiynau eraill, roedd cyngor ac awgrymiadau yn yr ymatebion, yn cynnwys anogaeth i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ddileu rhwystrau ariannol i dderbyn addysg ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches; ehangu'r cynllun teithio rhatach i gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid newydd i'w galluogi i fanteisio ar gyfleoedd gwaith; a darparu mwy o gymorth i raglenni gwirfoddoli sy'n helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n gwirfoddoli. Roedd 9% o'r ymatebion yn negyddol ac roedd 31% heb ymateb i'w cwestiwn hwn.

Awgrymodd Heddlu Gwent y dylid darparu mwy o wybodaeth ac eglurder ynghylch y cyfyngiadau ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn perthynas ag addysg, gwirfoddoli a chyfleoedd cysylltiedig eraill. Mae Heddlu Gwent yn ymgysylltu â ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n awyddus i chwilio am gyfleoedd i weithio a/neu wirfoddoli gyda'r heddlu; fodd bynnag, mae'r meini prawf preswyllo a fetio wedi atal hyn.

Roedd Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymhelaethu ar fater ESOL drwy ddatgan y byddai'r cynllun 'Cenedl Noddfa' yn gallu cynnwys camau i annog neu weithio gyda sefydliadau'r sectorau preifat a gwirfoddol i ddarparu rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli, a rhai mwy ystyrlon, i geiswyr lloches, ac i ddarparu hyfforddiant sylfaenol cysylltiedig â chyflogaeth – ar y cyd â chyrsgiau ESOL sy'n gysylltiedig â phwnc yr hyfforddiant, os oes modd.

Ymhlith yr ymatebion llai cadarnhaol i'r rhan hon o'r Cynllun yr oedd adborth gan Gomisiynydd y Gymraeg sy'n datgan nad oes digon o gyfleoedd o ran Cymraeg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill ar hyn o bryd ac nad yw'r Cynllun yn gwneud digon i ddatrys hyn .

#### **4.9 C.9 Allwch chi nodi unrhyw effeithiau ychwanegol o'r ddogfen hon (cadarnhaol neu niweidiol) ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Hawliau Plant?**

**Eglurwch eich barn ac unrhyw awgrymiadau am ffyrdd i ddiwygio'r ddogfen er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol.**

##### **Crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig**

O'r holl gwestiynau a ofynnwyd, hwn a ddenodd y lleiaf o adborth, gan fod 65.5% o randdeiliaid heb wneud unrhyw sylwadau am y ddogfen mewn perthynas â'r Gymraeg, Cydraddoldeb neu Hawliau Plant.

Roedd yr ymatebion a gafwyd yn amrywiol, yn cynnwys awgrym y byddai darparu fersiwn o'r Cynllun sy'n addas i blant wedi bod o gymorth i hwyluso adborth i'r ymgynghoriad gan bobl ifanc. Mae rhai ysgolion yn cynnal menter ysgol noddfa ac mae'n bosibl y gallent wneud cyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth. Byddai hefyd wedi bod yn ddymunol gweld barn ffoaduriaid a cheiswyr lloches ifanc yn y ddogfen ymgynghori ei hun.

Beirniadwyd y Cynllun gan Gomisiynydd y Gymraeg a ddywedodd nad yw'r ddogfen yn gwneud digon o hyrwyddo'r Gymraeg. Roedd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn llwyr gefnogi rhaglenni i ddarparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a dysgu am ddiwylliant Cymru i ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel yr oedd awdurdod lleol arall.

Cafwyd awgrym hefyd y dylid cynnwys mwy o wybodaeth yn y Cynllun am bolisi'r Swyddfa Gartref ar 'Gydymffurfiaeth / Amgylchedd Gelyniaethus'.

## **Barn Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches sy'n byw yng Nghymru am eu profiadau o ddarparu gwasanaethau.**

*(O adroddiad Partneriaeth Ymfudo Strategol CLILC, Mawrth 2018)*

### **Cefndir**

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Bartneriaeth Ymfudo Strategol CLILC gan gydnabod y ffaith bod nifer cynyddol o blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches (PPHCLI) wedi dod i Gymru, drwy wahanol ffyrdd, a'u bod yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol. Mae rhai awdurdodau lleol sydd heb brofiad helaeth o ofalu am PPHCLI o'r blaen, nac o'r cymhlethdodau a all ddod yn sgil hyn, yn cynnwys rhwystrau iaith, ymwneud â'r broses mewnfudo a deall hawliau PPHCLI. Felly roedd angen cael gwell dealltwriaeth o anghenion a phrofiadau PPHCLI sy'n dod i Gymru.

Roedd Partneriaeth Ymfudo Strategol CLILC wedi cwrdd â chyfanswm o 29 o bobl ifanc ac roedd yn cydnabod nad yw'r sylwadau sydd yn yr adroddiad hwn yn gynrychiadol o reidrwydd o brofiadau'r holl PPHCLI yng Nghymru.

Cynhaliwyd sesiynau mewn tri lleoliad yn ystod Chwefror 2018.

### **Lloches a Mewnfudo**

Mae'r adroddiad yn dangos bod pobl ifanc yng Nghymru yn falch o fod yma. Fodd bynnag, mae pobl ifanc wedi gofyn am ddarparu mwy o wasanaethau cyfieithu wrth gyrraedd ac wrth fynd drwy'r broses lloches, e.e. mewn perthynas â'u helpu i ddeall gohebiaeth oddi wrth y Swyddfa Gartref/UKVI. Roedd y rheini a gyfwelwyd wedi mynegi rhwystredigaeth hefyd am y ffaith nad oedd gwybodaeth ar gael wedi iddynt gyrraedd, yn cynnwys gwybodaeth am Gymru, ei diwylliant, beth sy'n dderbyniol i bobl a sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio.

### **Addysg**

Cafwyd adborth amrywiol yn yr adroddiad am addysg. Roedd rhai cyfranogwyr wedi mynegi barn gadarnhaol am eu profiad yn system ysgolion Cymru, a chafwyd adroddiadau am athrawon croesawgar, parchus a gofalgwr sy'n ymwybodol o effaith y siwrnai y mae'r plentyn wedi bod arni cyn dod i'w gofal. Roedd pobl ifanc wedi sôn yn gadarnhaol am siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg mewn perthynas â'r ysgol.

Ar y llaw arall, roedd rhai pobl ifanc wedi sôn am yr angen am ragor o adnoddau, yn enwedig mewn perthynas â TG a phrinder cyfrifiaduron a gwerslyfrau. Roedd person ifanc arall wedi cyfleu pryderon am ei ddyfodol yn y wlad a'r ffaith bod y pryderon hyn yn rhwystr i ddysgu. Mae dryswch hefyd ynghylch y cymorth sydd ar gael i ddisgyblion ac roedd rhai'n dangos dryswch ynghylch pwy sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim a rhai nad oeddent yn gwybod pa gymorth sy'n cael ei gynnig ac felly'n methu â derbyn gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

### **Gofal Cymdeithasol**

Roedd rhai pobl ifanc wedi disgrifio profiadau cadarnhaol o fyw gyda theuluoedd maeth gan gyfleu eu diolch i'r teuluoedd sy'n eu helpu.



Fodd bynnag, mae ymdeimlad hefyd ymysg rhai pobl ifanc nad ydynt yn cael gwrandawriad na blaenoriaeth gan y system gofal cymdeithasol. Roedd rhai'n cwyno nad oedd gweithwyr cymdeithasol yn ddigon cefnogol wrth eu helpu i hawlio lloches a'i bod yn ymddangos bod rhai gweithwyr cymdeithasol yn fwy awyddus i arbed arian yr awdurdod lleol.

Roedd rhai pobl ifanc wedi awgrymu, pe byddai llwyth gwaith y gweithwyr cymdeithasol yn ysgafnach, y byddai ganddynt fwy o amser, y byddent yn dangos mwy o gydymdeimlad iddynt yn eu sefyllfaoedd penodol ac felly y byddent yn fwy cefnogol.

Roedd y bobl ifanc wedi gofyn hefyd am ragor o gyfieithwyr i'w helpu yn eu sgysiau â gweithwyr cymdeithasol, fel y gallant fynegi eu hanghenion yn briodol a chael eu deall yn amserol.

## **Iechyd**

Dywedodd y bobl ifanc eu bod yn fodlon ar rai agweddau ar ofal iechyd yng Nghymru. Mae sylwadau yn yr adroddiad ynghylch pa mor barchus yw'r nyrsys, a chafwyd un sylw gan rywun a oedd yn cael problemau difrifol â'i ddannedd ac wedi cael triniaeth yn fuan ar ôl cyrraedd. Roeddent hefyd wedi nodi bod gwasanaethau cyfieithu digonol yn ystod apwyntiadau iechyd.

Er bod adroddiadau cadarnhaol am y gwasanaeth iechyd, mae anecdotau negyddol hefyd yn yr adroddiad sy'n ymwneud â'r amser a gymerir i wneud penderfyniadau yn y broses hawlio lloches a'r straen eithafol y mae hynny'n gallu ei achosi.

Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod angen mwy o ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc o'u hawliau ac o'r cymorth sydd ar gael iddynt. Roedd y rhai a gyfwelwyd wedi sôn am dderbyn cymorth o ansawdd amrywiol gan weithwyr proffesiynol. Gellid delio â hyn drwy:

- i. Ymwybyddiaeth o wasanaethau eirioli a'r gallu i'w derbyn
- ii. Hyfforddiant parhaus i weithwyr proffesiynol; ymwybyddiaeth ddiwylliannol, hawl i dderbyn gwasanaethau, y broses mewnfudo etc.

Roedd y bobl ifanc wedi cwestiynu a yw'r holl PPHCLI yn gallu derbyn cymorth i'r un graddau. Roeddent yn ymwybodol bod lefelau cymorth yn amrywio yn ôl eu hamgylchiadau personol, statws mewnfudo etc. Er enghraifft, mae person ifanc sydd wedi cael caniatâd yn ôl disgrisiwn yn gallu hawlio Lwfans Cynhaliath Addysg, ond nid person ifanc sydd heb ei gael. Er mwyn gwrthweithio'r ymdeimlad o ddiffyg cydraddoldeb, dylid symleiddio'r hawliau i dderbyn gwasanaethau.

Mae diffyg cymorth cymdeithasol i integreiddio a chwrdd â phobl ifanc eraill yn arwain at deimladau o arwahanrwydd. Dylid cael mwy o ymdrechion i hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd i bobl ifanc gwrdd a chymdeithasu yn y gymuned leol.

Roedd adborth yn dangos bod yr anallu i weithio nid yn unig yn atal unigolion rhag cael yr hyn y maent yn ei ystyried yn arian digonol i fyw arno, ond hefyd rhag cael y rhwydwaith cymdeithasol a'r cyfle sydd eu hangen i feithrin y sgiliau meddal a geir drwy gyflogaeth. Mae'n bosibl y bydd mantais mewn chwilio am gyfleoedd i bobl ifanc drafod hyn â phenderfynwyr.

#### **4.10 C.10 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, byddwchystal â'u nodi yma.**

Roedd nifer o ymatebwyr wedi nodi nad oes lle digon amlwg neu flaenoriaeth ddigon uchel yn y Cynllun i deithio am brisiau rhatach. Costau teithio uchel yw un o'r rhwystrau mwyaf sy'n wynebu pobl sy'n ceisio noddfa wrth fanteisio ar gyfleoedd mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Cyfeiriodd EYST at yr ansicrwydd sydd wedi'i achosi gan Brexit, gan grybwyll statws ymfudwyr o'r UE. Yn ei farn ef, dylid ystyried ehangu cwmpas y Cynllun i gynnwys Ymfudwyr o'r UE.

Roedd un heddlu wedi gwneud pwynt hollbwysig am gyfathrebu, cydlyniant a throeddau casineb. Bydd cyfathrebu da â'r cyhoedd yn bwysig iawn. Mae'n debygol y bydd grwpiau ac unigolion ar yr asgell dde eithaf yn ceisio portreadu ffoaduriaid a cheiswyr lloches mor anffafriol â phosibl. Os na eir ati o ddifrif i hybu ymwybyddiaeth, yna gallwn ddisgwyl gweld mwy o droseddau casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### **5. Sylwadau terfynol**

Yn gyffredinol, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth sylweddol i'r cynigion yn y fersiwn ddrafft o'r Cynllun. Mae'r materion a godwyd uchod wedi rhoi nifer o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru i wella fersiwn derfynol y ddogfen. Er bod rhai awgrymiadau croes wedi dod i law, roedd nifer o feysydd lle roedd consensws, fel mwy o gyfleoedd i ddilyn cyrsiau ESOL, teithio rhatach, mwy o ragolygon am waith a gwirfoddoli a gwella iechyd meddwl.

Hoffem ddiolch i'r holl ymatebwyr a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad drwy anfon ymateb ysgrifenedig, cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar-lein neu ddod i weithdy ymgynghori. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cyfraniadau.

### **6. Y Camau Nesaf**

Anfonir copi o'r crynodeb hwn o'r ymgynghoriad at bob un sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd y crynodeb o'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud defnydd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth ystyried pa newidiadau i'w gwneud yn y ddogfen ddrafft. Rhagwelir y bydd y fersiwn derfynol o Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yn cael ei chyhoeddi ar ddiwedd 2018.